



**Eglwys Bresbyteraidd Cymru**  
The Presbyterian Church of Wales

## **CANLLAWIAU RHEOLI MYNWENTYDD**

Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau i gynorthwyo  
Ymddiriedolwyr Lleol ein Capeli i reoli mynwentydd

## **Cefndir**

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn berchen ar nifer fawr o Fynwentydd sydd yn amrywio o ran maint. Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ganolog yw perchennog y mynwentydd a'r Cyfundeb sydd â chyfrifoldeb cyffredinol drostynt er mai Ymddiriedolwyr y Capeli sydd â chyfrifoldeb dros eu rheoli yn lleol.

Pan fo Eglwys yn cau, bydd y fynwent yn cael ei rheoli o hyd gan EBC oni wneir trefniadau eraill. (Er enghraifft, weithiau mae modd gwneud trefniant i'r les ddeiliad, neu i'r sawl sy'n prynu'r eglwys diangen gynnal y Fynwent).

## **CANLLAWIAU PARTHED GOFALU AM FYNWENTYDD MEWN MODD CYFRIFOL**

### **Rhagarweiniad**

Mae'r canllaw hwn yn cynnig arweiniad ymarferol i gynorthwyo ymddiriedolwyr i reoli mynwentydd. Cafwyd digwyddiadau amlwg mewn mynwentydd sydd wedi tanlinellu pryderon ynghylch atebolrwydd posib ac mae'r canllawiau hyn yn ceisio darparu cyngor ar y safonau rhesymol sydd eu hangen er mwyn ateb dyletswydd gofal sy'n ofynnol o ran yswiriant a deddf gwlad.

Mae gan ymddiriedolwyr rheolaethol ddyletswydd cyffredinol o dan Orchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 i gynnal claddfeydd mewn cyflwr da. At hyn mae ganddynt gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.

Dylai ymddiriedolwyr rheolaethol hefyd wneud popeth sydd yn ymarferol i sicrhau nad yw ymwelwyr a'r sawl sy'n gweithio mewn mynwentydd yn agored i risgiau o ran iechyd a diogelwch.

Os y digwydd damwain ddifrifol yna byddai unrhyw ymchwiliad yn gofyn a oedd yr ymddiriedolwyr rheolaethol wedi cymryd camau synhwyrol i osgoi risgiau ac wedi gwneud popeth ymarferol bosibl o dan yr amgylchiadau.

I'r perwyl hwn mae gofyn i Ymddiriedolwyr Rheolaethol ddatblygu cynllun i reoli iechyd a diogelwch ar sail adnabod peryglon posib, y posibilrwydd y byddant yn arwain at anaf difrifol, a'r camau a gymerwyd i leihau'r risgiau hynny (yr hyn a elwir yn Asesiad Risgiau).

Nodir isod y prif feysydd sydd angen eu hystyried.

## COFEBAU

Mae'r dull isod yn golygu cynnal asesiadau cyfnodol ar gofebion fel rhan o ymarfer sydd wedi ei gynllunio. Os oes angen gweithredu yn dilyn yr asesiad hwn, rhaid cymryd camau rhesymol a chymesur i reoli unrhyw risg.

Mae'r cerrig beddi yn eiddo i'r teuluoedd a'u gosododd yno. Hwysydd â'r prif gyfrifoldeb i ofalu amdanynt. Modd bynnag, maent wedi eu codi ar dir sy'n perthyn i'r eglwys ac mae gan yr eglwys ddyletswydd i reoli unrhyw risgiau sy'n deillio ohonynt.

Yn unol ag argymhellion y Llywodraeth, dim ond y sawl sydd wedi eu hyfforddi ac sydd yn brofiadol ddylai archwilio cofebau. Os yw aelodau'r eglwys yn dymuno cynnal yr archwiliadau, yna rhaid iddynt ddilyn rhaglen hyfforddiant addas.

Gwelir isod dull rheoli a argymhellir:

1. Fe'ch cynghorir i osod arwyddion yn y fynwent a hysbysiad yn y papur lleol yn rhoi gwybod y cynhelir asesiad risgiau yn y fynwent, gan roi isafswm o 4 wythnos o rybudd.
2. Dylid archwilio yr holl gerrig beddi, beddrodau a chladdgelloedd o leiaf unwaith y flwyddyn
3. Dylid gafael yn gorfforol ymhob carreg i wirio a oes unrhyw osodiadau rhydd, mortar yn ymddatod neu asglodi cynamserol oherwydd oed neu rew. Dylid dosbarthu'r cerrig yn unol â'r perygl posib sy'n codi ohonynt.
4. Dylid nodi yn syth unrhyw gerrig peryglus h.y. y mae perygl iddynt ddisgyn: mewn achosion o'r fath dylid cyfyngu ar unrhyw fynediad atynt neu osod y garreg yn fflat ar lawr. Dylid ceisio cyngor arbenigwr, gan saer maen neu beiriannydd strwythurol, os nad oes gan y person sy'n cynnal yr archwiliad y wybodaeth neu'r profiad angenrheidiol i ddelio gyda'r broblem.
5. Yn achos cerrig sydd angen eu hatgyweirio, ond lle nad oes perygl yn syth, dylid cymryd camau rhesymol i ofyn i aelodau o'r teulu i drwsio'r cerrig er mwyn eu gwneud yn ddiogel a hynny o fewn cyfnod sy'n gymesur â maint y perygl. Dylid hysbysu'r teulu yn ysgrifenedig gan nodi'r camau a gymerir oni wneir y gwaith o fewn y cyfnod penodedig (sef y gwaith lleiaf sydd ei angen er mwyn gwneud y gerrig yn ddiogel – a fydd fel arfer yn golygu gosod y garreg yn fflat ar lawr). Os na wneir unrhyw beth, dylid anfon llythyr pellach yn hysbysu'r teulu fod y gwaith i'w gyflawni.
6. Os nad oes modd dod o hyd i'r teulu, dylid gosod arwydd ar y garreg yn nodi'r gwaith sydd i'w gyflawni arni. Argymhellir eich bod yn gosod hysbysiad yn y papurau lleol yn nodi'r bwriad i ymgymryd â'r gwaith ac y dylai unrhyw rai sydd â diddordeb ymweld â'r fynwent er mwyn gweld yr hyn a argymhellir.

7. Dylid gosod arwyddion addas ar unrhyw gerrig sydd angen eu trwsio (gan ddefnyddio symbolau sy'n ddealladwy i bawb) a/neu dâp a hynny yn ddi-oed.

8. Dylid nodi/cofnodi yn glir unrhyw gerrig sy'n peri pryder a hynny er mwyn cadw golwg cyson a rheolaidd arnynt.

9. Dylid cadw cofnod o'r archwiliad a'r canlyniadau, gan gynnwys y dyddiad ac enw'r archwilydd, gan nodi yn benodol y cofebau hynny sydd angen sylw, neu sydd yn debygol o fod angen sylw i'r dyfodol.

**DYLID DEFNYDDIO SYNNEWYR CYFFREDIN WRTH WNEUD YR ASESAD HWN A DYLAI FOD UNRHYW WEITHREDU YN GYMESUR A'R PERYGL CANFYDDEDIG.**

**OS OES UNRHYW AMHEUAETH MAE'N WELL TYBIO'R GWAETHAF A GWNEUD Y GWAITH ANGENRHEIDIOL, A GOSOD Y GARREG FEDD YN FFLAT AR LAWYR, NEU YNYSU'R ARDAL.**

Argymhellir mai seiri maen profiadol a phroffesiynol yn unig sy'n cael gweithio mewn mynwentydd sy'n perthyn i EBC. Mae'n arfer da i sicrhau bod unrhyw waith yn cael ei wneud yn unol â Chôd Ymarfer Cymdeithas Genedlaethol y Seiri Maen (sy'n ategu Safonau Prydeinig 8415) a bod gofyn i'r seiri maen gadarnhau yn ysgrifenedig fod y gwaith wedi ei wneud yn unol â hyn. Mae'n ddoeth gofyn am luniad sy'n cofnodi y modd y mae'r cofebau wedi eu codi.

## **CYNNAL A CHADW MYNWENTYDD**

Gwirfoddolwyr sydd yn aml yn gyfrifol am gynnal a chadw y fynwent. Dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- Archwilio a rhoi gwasanaeth rheolaidd i'r peiriannau a'r offer cynnal a chadw
- Darparu a gwisgo y dillad diogelwch priodol e.e. esgidiau diogelwch, offer amddiffyn clustiau, sbectol diogelwch, menig
- Cymryd gofal arbennig wrth glirio sbwriel – dylid gwisgo menig trwm. Cadwch olwg am wydr toredig a nodwyddau hypodermig a waredwyd.
- Ni ddylid defnyddio peiriannau neu offer os nad ydych wedi cael hyfforddiant priodol. Mae isafswm oed ar y sawl sydd yn cael defnyddio rhai mathau o offer.
- Dylid cael dau berson yn bresennol pan yn cyflawni gwaith.
- Mae angen ystyriaeth ofalus wrth ddefnyddio ysgolion. Dylid ystyried llogi tyrau arbenigol er mwyn cael mynediad neu gontractio'r gwaith i arbenigwyr. Rhaid

sicrhau bod ysgolion wedi eu gosod yn ddiogel ac yn briodol. Gweler <http://www.hse.gov.uk/falls/casestudies/gutters.htm> am gyngor ar wneud asesiadau risg cyn defnyddio ysgolion.

Os yw'n bosibl, byddai'n fanteisiol trefnu i gontractwyr cyfrifol allanol ymgymryd â gwaith cynnal a chadw yn y fynwent. Dylai'r cyfryw gontractwyr:

- Fod ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus
- Bod yn gymwys i wneud y gwaith ac yn brofiadol
- Bodloni EBC fod ganddynt bolisi iechyd a diogelwch priodol
- Darparu eu peirannau eu hunain

## **WALIAU, LLWYBRAU, GRISIAU AC ADEILADWAITH ARALL**

Dylid archwilio waliau, ffensys, llwybrau, grisiau a mannau eraill yn rheolaidd er mwyn asesu eu cyflwr a gweld a oes angen gwneud unrhyw waith er mwyn darparu amgylchedd ddiogel.

Os nodir fod unrhyw adeiladwaith yn anniogel, dylid gweithredu er mwyn cywiro hyn mor fuan ag sydd modd gyda ffensys diogelwch priodol yn cael eu gosod er mwyn cadw pobl o'r ardal hon hyd nes y bydd y gwaith adfer wedi ei gwblhau.

Weithiau gall bod waliau ac adeiladwaith arall wedi eu cofrestru ar wahân a bydd angen gofyn am ganiatâd swyddogol (caniatâd i gyflawni gwaith ar adeiladau cofrestredig) er mwyn gwneud y gwaith.

## **YMWELWYR**

Mae gan yr Ymddiriedolwyr Rheolaethol, ynghyd ag EBC, ddyletswydd gofal tuag at bawb sy'n mynd i mewn i'r fynwent gan gynnwys tresmaswyr. Mae'r ddyletswydd yn golygu cymryd pob gofal rhesymol o dan bob amgylchiad i sicrhau na fydd yr ymwelydd yn dioddef anaf ar y safle.

## **Gwybodaeth Ychwanegol**

Lluniwyd y ddogfen hon gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru er mwyn cynorthwyo ei hymddiriedolwyr rheolaethol lleol i gyfarfod â gofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974, Gorchymyn Mynwentydd yr Awdurdodau Lleol 1977 ac unrhyw ddeddfwriaeth statudol arall.

Darperir cyngor a gwybodaeth y ddogfen yn ddidwyll ac mae wedi ei seilio ar ein dealltwriaeth ni o'r ddeddfwriaeth gyfredol. Nid yw Eglwys Bresbyteraidd Cymru na'i Swyddogion yn derbyn atebolrwydd o gwbl am unrhyw gamgymeriadau neu hepgoriadau a all arwain at anafiadau, colledion neu ddfrod gan gynnwys colledion canlyniadol neu ariannol. Cyfrifoldeb yr Yswiriedig neu unrhyw berson arall yw sicrhau eu bod yn cyfarfod eu gofynion statudol ac y mae unrhyw ddehongli neu weithredu ar yr uchod yn ôl disgrisiwn llwyr yr Yswiriedig neu unrhyw barti arall all ddarllen y nodiadau hyn a defnyddio'r ddogfen hon.

## **Gwybodaeth bellach**

Gellir derbyn gwybodaeth a chyngor pellach o Swyddfa Ganolog Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghapel Tabernacle 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1DD. Ffôn: 029 20627465.

Safleoedd defnyddiol ar y Rhyngrwyd

<http://www.hse.gov.uk/>

<http://www.justice.gov.uk/publications/safety-burial-grounds.htm>

Cyhoeddiadau

- Ministry of Justice - Managing the safety of burial ground memorials (fersiwn Cymraeg ar y wefan isod)

<http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/memorials/?skip=1&lang=cy>

- Local Authorities' Cemeteries Order 1977 (SI 1977/204)
- The Health and Safety at Work Act 1974.
- The Management of Health and Safety at Work (MHSW) Regulations 1999

## **Example of Risk Assessment**

## Cemetery –General Risk Assessment


<b>Task/Activity.</b>	<b>Type of Hazard</b>	<b>Persons at Risk</b>	<b>Likelihood of Harm(high, medium or low)</b>	<b>Worst Case outcome</b>	<b>Control Measures in Place</b>	<b>Action Required.</b>
Access to Graveyard	Opening gate	All	Low	Minor injury	Gate regularly inspected and maintained	None
Climbing access steps	Slip, Trip, fall	All	Low	Minor injury	Regularly inspect undertake any repairs. Handrail fitted	None steps in good order
Access through site	Slip ,Trip, fall	All	Low	Minor Injury	Inspection of paving. Repairs undertaken as required	Minor deterioration of concrete surface. Check in 6 months to monitor condition.
Walking on grass pathways	Trip stumble. Grass may become more hazardous in inclement weather .Trip hazard uneven, holes , vegetation	All	Low	Minor Injury		Regular maintenance to prevent overgrowth of vegetation, infilling of any pot holes etc. on regular basis not exceeding 6 months.



Walkways on pathways with memorials in close proximity	Slip or fall resulting in grabbing or handling adjacent memorial stock to prevent fall.	All	Medium	Serious/fatal	High	All memorial stock along main pathway should be inspected at least every 12 months and rectified immediately if any instability found.
Memorials adjacent to boundary walls.	Failure of boundary walls causing potential hazard	All	Medium	Medium/Serious	Medium	Regular inspection of boundary walls/railings to ensure structural stability. Repair work undertaken if required.


## Memorial Inspection

Category **RED** –Urgent Safety Works required –Attach warning sign and carry out works within 1 month

First Surname	First name	Grave no	Photo ref	Assessment rating
Mitchell	Gerwyn	101	1a	RED
	The headstone is loose- not secured on foundation or kerbs. Danger of it falling or being pulled down on anyone climbing/mounting.			
	<b>RECOMMENDED WORK</b>			
	1/Drill and dowell using NAMM anchor System to secure headstone and foundation. ALTERNATIVELY -2/Lower headstone and lay flat in centre of grave, inscription showing upwards.			

## Memorial Inspection

Category **AMBER** – Repair or Re- inspect within 6 months

First Surname	First name	Grave no	Photo ref	Assessment rating
Jones	Daffyd	101	1a	<b>AMBER</b>
	Loose sides to tomb. Open joints to top			
	<b>RECOMMENDED WORK</b>			
	Lay side flat. Re inspect tomb within 6 months to check no further deterioration			